PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Polisi Cynaliadwy Teithio a Chludiant

Rhagarweiniad

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i wella'r amgylchedd yn barhaus. Fel y nodwyd yn ein System Rheolaeth Amgylcheddol, mae ein heffeithiau sylweddol ar yr amgylchedd yn cynnwys yr ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â'r teithio a wneir gan ein staff a'n myfyrwyr. Amcangyfrifir bod staff yn teithio mewn cerbydau ar fusnes yn unig yn cynhyrchu 400 tunnell o garbon deuocsid. Mae teithio'n ôl a blaen o'n cartrefi i'r Brifysgol hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at ein ôl troed carbon. Nid yn unig mae gan ddulliau cludiant cynaliadwy fanteision amgylcheddol; gallant hefyd gyfrannu at hybu iechyd a lles a lleihau'r effaith y mae tagfeydd traffig a phroblemau parcio yn eu cael ar y gymuned leol. Mae'r Llywodraeth Ganolog hefyd yn hyrwyddo teithio cynaliadwy. Yn dilyn cynlluniau arbrofol yn Lloegr, cadarnhaodd Llywodraeth y Cynulliad ym Mawrth 2010 bod ardal Môn a Menai yng Ngogledd Cymru i gael statws 'Ardal Teithio Gynaliadwy', yr ail ardal o'i bath yng Nghymru. Canlyniad hyn yw derbyn £3 miliwn o gyllid gan y Cynulliad tuag at gynlluniau teithio cynaliadwy yn yr ardal.

Mae gan staff a myfyrwyr i gyd ran i'w chwarae mewn lleihau effeithiau teithio ar yr amgylchedd ac mae'r polisi hwn felly'n berthnasol ar draws y Brifysgol.

Datganiad Polisi

A. Teithio Busnes

Mae Teithio Busnes yn ofynnol yn anochel mewn unrhyw sefydliad. Ein nod yw lleihau effeithiau ein gofynion teithio busnes ar yr amgylchedd drwy annog defnyddio'r dewisiadau isod yn y drefn ganlynol:

1) Osgoi teithio drwy ddefnyddio technoleg (fideo-gynadledda / telegynadledda etc.)
2) Teithio ar gludiant cyhoeddus / beicio / cerdded lle bynnag y bo modd
3) Teithio gan ddefnyddio cerbydau hur neu gerbydau Prifysgol sydd ag allyriadau isel ac sy'n defnyddio tanwydd yn effeithlon
4) Rhannu car mewn car personol
5) Teithio eich hun mewn car personol

Yn aml mae teithio dramor yn golygu hedfan yn anochel; fodd bynnag, lle mae dewisiadau mwy cynaliadwy ar gael (e.e. Eurostar) dylid eu hystyried lle bynnag y bo'n bosibl.

B. Teithio yn ôl a blaen i'r Brifysgol, ac o fewn y Brifysgol

Derbynnir mai'r ffordd fwyaf cyfleus fel rheol o deithio i'r gwaith yw ar eich pen eich hun mewn car. Fodd bynnag, y teithiau hyn sy'n cael yr effaith fwyaf ar yr amgylchedd. Er mwyn symud tuag at ddulliau cludiant mwy cynaliadwy (h.y. cludiant cyhoeddus, beicio, cerdded a rhannu ceir) byddwn yn datblygu Cynllun Teithio gyda'r nod sylfaenol o ddarparu dewisiadau amgen ymarferol i staff a myfyrwyr yn hytrach na theithiau ar eich pen eich hun mewn car.

Bydd y Cynllun Teithio'n canolbwyntio ar gyfleoedd ar gyfer y canlynol:

- Ysgogiadau ariannol i wneud mwy o ddefnydd o ddulliau cludiant cynaliadwy
- Rhoi gwybodaeth i staff a myfyrwyr (e.e. amserlenni cludiant cyhoeddus, llwybrau beics etc) i wneud eu dewisiadau'n 'rhwydd i gwsmeriaid'
- Hwyluso rhannu ceir ar raddfa fawr drwy sefydlu cronfa ddata rhannu ceir i'r Brifysgol gyfan
- Gwella maint ac ansawdd y lleoedd parcio ar gyfer beics
- Gwella'r cyfleusterau cawod a chloerau ar gyfer beicwyr a cherddwyr
- Darparu cronfa o feics Prifysgol
- Sefydlu bws gwennol rhwng gwahanol rannau'r campws

Bydd y Cynllun Teithio hefyd yn cefnogi'r gofynion cynllunio sy'n gysylltiedig â datblygiadau ein Hystâd yn y dyfodol, yn ogystal â bod yn sail ar gyfer cyllido projectau yn y Brifysgol drwy gynllun Ardal Deithio Gynaliadwy Llywodraeth y Cynulliad.

Monitro

Er mwyn monitro'n effeithiol ein ôl troed carbon yn gysylltiedig â gofynion cludiant uniongyrchol ac anuniongyrchol, byddwn yn datblygu methodoleg gadarn ar gyfer cofnodi allyriadau'n gysylltiedig â theithio busnes a chymudo (yn cynnwys hedfan gan fyfyrwyr tramor). Byddwn hefyd yn monitro effeithiolrwydd defnyddio cyfleusterau fideo-gynadledda i leihau teithio ac felly ostwng ein ôl-troed carbon.

Yn unol â'n System Rheolaeth Amgylcheddol, rhoddir gwybod yn gyhoeddus am ein hallyriadau'n gysylltiedig â theithio yn yr Adroddiad Carbon Deuocsid a gyhoeddir yn flynyddol ar we-dudalennau Amgylcheddol y Brifysgol. Bydd y Cynllun Teithio'n nodi targedau priodol ar gyfer sicrhau symudiad tuag at ddulliau cludiant mwy cynaliadwy, a mesurir cynnydd drwy Arolwg Teithio Staff a Myfyrwyr blynyddol. Rhoddir gwybod am gynnydd yn ein Datganiad Amgylcheddol blynyddol.

Cyhoeddir gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â theithio a chludiant cynaliadwy ar we-dudalennau amgylcheddol y Brifysgol.

Mae'r Polisi hwn yn amodol i reolau Iechyd a Diogelwch a rheolau Ariannol y Brifysgol yn ymwneud â theithio ar fusnes y Brifysgol. Caiff y Polisi ei adolygu'n flynyddol gan y Grŵp Gweithredu Cynaliadwyedd, ei gymeradwyo gan y Grŵp Rheoli Cynaliadwyedd, a rhoddir adroddiad arno i Bwyllgor Gweithredu'r Brifysgol.

Llofnod: John Hughes

Yr Athro John Hughes, Is-Ganghellor

Dyddiad: 7/2/2011